

ATODIAD 9

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

1. Mae'r gwaith o gynllunio a pharatoi'r argymhellion wedi digwydd o fewn cyd-destun gofynion y Ddeddf uchod. Er bod yr argymhellion yn deillio o ddewisiadau ariannol anodd, mae'r Cyngor wedi gweithredu ar seiliau'r egwyddor o weithredu mewn modd sydd yn cyfarch y ddyletswydd statudol yn Adran 3 i ymgymryd â datblygu cynaliadwy a chyflawni Amcanion Llesiant y Cyngor. Mae hyn yn cael ei gyfarch wrth adnabod a chloriannu'r dewisiadau o ran arbedion, ond hefyd wrth benderfyniadau a dewisiadau o safbwynt darparu adnoddau digonol er mwyn cynnal lefel briodol o wasanaethau.
2. Mae'r gyllideb hon yn adlewyrchu'r pum ffordd o weithio canlynol y mae'r Cyngor yn ystyried wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.
 - Edrych i'r tymor hir – Mae gyllideb yn cynllunio ar gyfer y dyfodol, gan adnabod anghenion a galw am wasanaethau yn y dyfodol, a chymryd agwedd strategol i sicrhau bod gwasanaethau'n gynaliadwy.
 - Deall problemau a'u hatal - Mae'r broses gyllidebu yn hwyluso dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol, fel y gellir mynd i'r afael â gwreiddiau materion. Hefyd, mae'r gyfres o Weithdai Aelodau wedi hwyluso dealltwriaeth o'r strategaeth ariannol.
 - Cymryd agwedd integredig – Mae polisiâu ac arferion cyllidebu Cyngor Gwynedd, a'r cynigion cyllideb eleni wedi'u ystyried o safbwynt yr holl nodau llesiant.
 - Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol - Lle gellir darparu gwasanaethau gwell trwy gydweithredu, a gweithio gyda phartneriaid, mae'r broses gyllidebol a'r strategaeth arbedion yn annog hyn, yn fewnol ac allanol, lle mae hynny'n fwy cynaliadwy.
 - Cynnwys y boblogaeth mewn penderfyniadau - Mae rhan o'r broses gyllidebu a'r strategaeth arbedion hir-dymor wedi cynnwys ymgysylltu â thrigolion, cwsmeriaid a phartneriaid.
3. Prif gasgliadau am gyllideb 2021/22 ynglŷn â'r 7 nod llesiant:
 - Llewyrchus – Niwtral (ychwanegu at adnoddau gwasanaethau sy'n rhoi diwedd ar dlodi)
 - Cydnerth - Positif (agwedd darbodus, hir-dymor at ariannu gwasanaethau a galluogi Cynllun y Cyngor)
 - Iachach – Positif (ariannu gofynion ychwanegol gwasanaethau 'gofal')
 - Mwy Cyfartal – Positif (trethu er mwyn ariannu gwasanaethau 'lles')
 - Cymunedau Cydlynus – Niwtral (parhau i ariannu gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel)
 - Diwylliant a'r Gymraeg – Positif (drwy ariannu gwasanaethau dwy-ieithog)
 - Byd-eang Gyfrifol – Niwtral (parhau i ariannu prosiectau digidol, amgylcheddol, cydweithredol)
4. Ynglŷn â chynlluniau arbedion ariannol penodol, fel rhan o'r gyfundrefn arbedion gorfforaethol ac adrannol mewn blynyddoedd blaenorol pryd cymeradwywyd y cynlluniau arbedion, lle'n briodol bu asesiad llesiant penodol fesul cynllun unigol, ac ystyriaeth o hynny yn y pwyllgorau craffu trefnwyd i'w ystyried ac i flaenoriaethu arbedion i'w gweithredu.
5. Yn gyffredinol, wedi'i gyplysu gyda Chynllun y Cyngor a'r Amcanion Llesiant, mae'r gyllideb yma'n cefnogi'r Cyngor i wireddu amcanion strategol.